



Yn 2019, croesawyd 1,023 miliwn o ymweliadau rhyngwladol â Chymru, y ffigur blynyddol trydydd orau erioed, a gwariwyd £515 miliwn.

Syniadau Epic.

Marchnata eich cynnyrch yn rhyngwladol.

01—

Os ydych wedi ennill eich plwyf yn y farchnad ddomestig ac yn awyddus i gyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol drwy'r diwydiant teithio, hoffwn eich helpu i ddatblygu eich cynnyrch.

Dyma'r manteision sy'n deillio o feddwl yn rhyngwladol:

- Mynd i'r afael â natur dymhorol y diwydiant.
- Mae ymwelwyr rhyngwladol ar gyfartaledd yn gwario mwy.
- Mae amserau arwain hirach ar gyfer teithio rhyngwladol yn rhoi'r gallu ichi gynllunio ymlaen.

02—

Ewch amdani!

- Cofrestrwch eich cynnyrch ar ein gwefan B2B sy'n cael ei hyrwyddo ar draws y byd traveltrade.visitwales.com.
- Rhannwch eich newyddion a'ch datblygiadau â ni drwy e-bostio: productnews@llyw.cymru. Byddwn yn rhannu diweddariadau perthnasol gyda'n trefnyddion teithiau, cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus a VisitBritain.
- Cofrestrwch i gael ein cylchlythyr businesswales.gov.wales/tourism/cy/gweithio-gyda-croeso-cymru.
- Cewch gyfle i gwrdd â threfnyddion ac arddangos eich cynnyrch ar ein teithiau ymgyfarwyddo. I fod yn rhan, bydd angen ichi ddangos eich bod wrthi'n gweithio gyda'r diwydiant teithio a bod eich cynnyrch yn ymddangos ar ein gwefan ar gyfer y diwydiant teithio.
- Byddwch yn aelod o UKinbound a Chymdeithas Gweithredwyr Teithiau Ewrop (ETOA) i gael mynediad i weithdai, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio B2B.

—Cewch gyfle i fynd i ddigwyddiad yn y DU neu dramor. Cadwch lygad am newyddion yn ein e-gylchlythyr ynglŷn â digwyddiadau sydd ar y gweill.

03—

Mae gan trade.visitbritain.com amrywiaeth eang o ddulliau i'ch helpu i farchnata eich cynnyrch yn rhyngwladol. Dyma ychydig ohonynt i'ch roi ar ben ffordd:

- Ymunwch â digwyddiad VisitBritain (yn y DU neu dramor) i gael apwyntiadau un i un sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw gyda phrynwyr rhyngwladol. Chwiliwch yn y tab 'Trade Events' am ragor o wybodaeth. Mae'r Adran Fasnach Ryngwladol (DIT) yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau sy'n dod i ddigwyddiadau Tramor VB, gan ddibynnu bod lle ar gael a'ch bod yn gymwys.
- Rhewch eich cynnyrch ar Gyfeiriadur Cyflenwyr di-dâl VisitBritain.
- Gwerthwch eich cynnyrch y gall pobl ei archebu mewn dros 90 o wledydd drwy visitbritainshop.com.
- Deall eich marchnad. Mynnwch gipolwg ar dudalennau VisitBritain am wybodaeth benodol am y farchnad a fydd yn eich helpu i ddeall ymwelwyr rhyngwladol.
- Cewch wybod mwy am sut i baratoi eich busnes ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol yn visitbritain.org/preparing-your-business.

04—

Cofiwch ddilyn:

- @CroesoCymruBus
- @VisitWalesTrade
- @MeetInWales
- @croesocymru
- @VisitBritainBiz
- @VisitBritainPR
- @VisitBritain
- Defnyddiwch [#TravelTradeWales](https://twitter.com/TravelTradeWales) Croeso Cymru neu [#LoveGreatBritain](https://twitter.com/LoveGreatBritain) VisitBritain yn y cyfryngau cymdeithasol.

